# Canllawiau Iaith S4C

## Sylwadau Cymdeithas yr Iaith

## 1.Cyflwyniad

1.1. Mae S4C yn sianel unigryw, nid yn unig oherwydd mai hi yw'r unig sianel teledu Gymraeg yn y byd, ond oherwydd a gafodd ei sefydlu o ganlyniad i ymgyrch hir ac anodd gan bobl ar lawr gwlad. Yn wir, aberthodd nifer o bobl eu rhyddid er mwyn ei sefydlu.

1.2. Credwn fod angen newid meddylfryd cynhyrchwyr a'r sefydliad yn ei gyfanrwydd tuag at ddiben y sianel er mwyn sicrhau bod S4C yn llwyddo ehangu ei darpariaeth.

1.3. Derbyniwn fod rhai o heriau'r sianel yn deillio o'r ffaith mai dim ond un sianel deledu Gymraeg. Fodd bynnag, yr ymateb i hyn yw sicrhau bod rhagor o lwyfannau Cymraeg eu hiaith yn hytrach na gorfodi'r gynulleidfa i wylio drwy gyfrwng y Saesneg. Mae cannoedd o sianeli teledu Saesneg, a dim ond un sianel deledu Gymraeg.

## 2. Sylwadau ar y canllawiau iaith cyfredol

2.1. Credwn fod polisi iaith Gymraeg gyfredol S4C yn sylfaenol wallus o ran ei natur.

2.2. Mae agwedd y polisi yn cymryd yn ganiataol, fel sydd yn cael ei ddweud yn uniongyrchol yn y polisi, fod pawb yn medru'r Saesneg. Credwn fod hyn yn agwedd anghywir a difrodol i'w chymryd.

2.3. Yn lle, dylid nodi, fel prif egwyddor y canllawiau newydd, mai nod S4C yw bodloni hawliau'r rhai sy'n dymuno gwylio, clywed a defnyddio'r Gymraeg i'w mwynhau yn y cyfryngau. Dylid nodi yn ogystal bod gan S4C rhan i chwarae o ran normaleiddio'r Gymraeg ar bob llwyfan cyfryngol, a gwella mynediad grwpiau lleiafrifol ethnig ac ieithyddol eraill i'r Gymraeg.

2.4. Mae'n ymddangos mai prif fyrdwn y polisi yw sefydlu beth yw'r lleiafswm a'r mwyafswm o Saesneg y gellir ei gynnig mewn rhaglenni. Credwn fod hyn eto yn agwedd rhyfedd, anghreadigol ac annheg i'w chymryd, sydd yn dangos diffyg hyder, diffyg uchelgais a diffyg blaengaredd.

2.5. Mae yma rhagdyb bod mwy fwy o Saesneg yn dderbyniol i rai cynulleidfaoedd, er enghraifft yn ôl oedran.

2.6. Mae'r polisi yn talu sylw mawr i'r Saesneg. Wrth roi'r fath sylw i'r Saesneg, ymysg problemau mawrion sylfaenol eraill y mae hyn yn eu codi, mae yma anwybyddu'n llwyr ein bod yn byw mewn byd amlieithog ac nid dwyieithog.

2.7. Mae llawer o le ar gyfer ymdeimlad mwy amlddiwylliannol, rhyngwladol ac uchelgeisiol i'r ddogfen.

2.8. Mae'n edrych yn debyg fod angen ail-ymweld â'r cwestiwn o bwrpas S4C – ai creu rhaglenni amrywiol, safonol Cymraeg, gan arddangos y Gymraeg yn flaengar ac hyderus gan ddenu pobol ato, ynteu cynnwys cymaint â phosibl o Saesneg yn y rhaglenni yn y gobaith bydd siaradwyr Saesneg yn gwylio rhyw ychydig ohono, ac hynny ar draul hawliau'r rhai sy'n dymuno gwylio, clywed a defnyddio'r Gymraeg ac holl fwriad y sianel.

2.9. Mae'r ddogfen Canllawiau Iaith yn cymhlethu ei hun ac yn amwys mewn llefydd, ble nad oes angen. Yn syml dylid nodi:

- pwrpas bodolaeth S4C

- nodi yn glir mai Cymraeg yw iaith y rhaglenni
- nad oes rhagdybiaeth bod neb sydd yn ei wylio yn medru'r Saesneg
- bod pob cyfrannydd yn cyfrannu yn ei famiaith, heblaw eu bod yn medru'r Gymraeg
- bod pob iaith arall (heblaw am y Gymraeg a'r Saesneg) i gael eu is-deitlo yn Gymraeg (fel sy'n digwydd yn hynod lwyddiannus ar Pryd o Sêr ar hyn o bryd)
- bod cyfranwyr sy'n siarad Saesneg i gael eu trosleisio yn hytrach na'u his-deitlo
- mae'r defnydd o'r term a'r cysyniad 'di-Gymraeg' yn eithrio grŵp mawr o bobl sydd fel arall yn awyddus i glywed a gweld y Gymraeg. Yn y Gymru fodern does dim ffasiwn beth â 'di-Gymraeg' - mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n byw yng Nghymru ar y sbectrwm o siaradwyr Cymraeg hyd yn oed os nad ydyn nhw yn hollol rugl neu hyderus eu Cymraeg

2.10. Mae llawer o sôn yn y ddogfen bresennol, fel a fu yn y cyfarfod a gawsom gennych ddiwedd y llynedd, am 'adlewyrchu''r Gymdeithas. Nid ydym yn derbyn y ddadl hon, o'i derbyn mi fyddai 80% o'r iaith yn Saesneg. Mae cymaint mwy i gyfryngau nag 'adlewyrchu'r' Gymdeithas: un o ddibenion y sianel yw arwain at ddefnydd uwch o'r Gymraeg, nid 'adlewyrchu''r defnydd isel yn gyffredinol yn ein cymdeithas.

2.11. Credwn yn ogystal, y dylai S4C:

- Archwilio posibiliadau o gydweithio mwy gyda chwmnïau teledu o ieithoedd amrywiol a gwledydd tramor -  nid fel ffordd o wneud toriadau ond fel gweithred creadigol ac amlddiwylliannol
- Diwallu'r angen am fwy o ddeunydd Cymraeg ar-lein o bob math, yn enwedig i blant
- Yn hytrach na BARB a metrigau traddodiadol sydd yn canolbwyntio ar niferoedd amrwd, dylid ddatblygu ffyrdd o fesur effaith S4C sydd yn canolbwyntio ar lwyddiannau ieithyddol a diwylliannol wrth ystyried pwrpas craidd y sianel fel gwasanaeth cyfryngol cyhoeddus
- Cydnabod a chwestiynu effeithiau anfwriadol darpariaeth Saesneg y botwm coch gan fod adroddiadau bod pobl nad sydd â chymaint o Gymraeg ond oedd yn arfer gwrando ar sylwebu chwaraeon yn Gymraeg nawr yn troi i'r Saesneg.

Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
Chwefror 2017